

## **Hysbysiad Preifatrwydd Asiantaethau Bank of England (Ionawr 2025)**

### **Gwybodaeth rydym yn ei chasglu**

Trwy ein rhyngweithiadau, mae'r Bank of England yn casglu data personol amdanoch. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich enw, gwybodaeth gyswllt broffesiynol a busnes a'ch man gwaith. Rydym hefyd yn casglu eich barn, i'r graddau yr ydych yn ei datgelu yn ein rhyngweithiadau.

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio cronfeydd data sydd ar gael yn fasnachol, a rhai ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd.

### **Pam mae angen eich data personol arnom**

Rydym yn casglu eich data personol i allu cyfathrebu ac ymgysylltu â chi fel rhan o waith ymchwil a gwaith cynrychioliadol rhanbarthol y Bank of England. Ein sail ar gyfer prosesu'r data hwn yw ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol y Bank of England. Ein sail ar gyfer prosesu'r data hwn a chategorïau arbennig o ddata personol a ddarperir gennych chi (megis gofynion dietegol mewn digwyddiadau neu eich barn wleidyddol yn ystod ein rhyngweithiadau), yw ei fod yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

### **Beth rydym yn ei wneud â'ch data personol**

Mae'r wybodaeth a gyflwynir gennych yn berthnasol i waith polisi, dadansoddi, gweithredu a goruchwyllo'r Bank of England.

Yn ystod ein cyswllt â chi efallai y byddwn yn cynnal arolygon o amodau busnes. Lle bo'n bosibl, byddwn yn cynnal yr arolygon gyda chi wyneb yn wyneb. Pan nad yw hynny'n bosibl, efallai y byddwn yn anfon dolen unigryw atoch i ffurflen arolwg dros e-bost. Rydym yn defnyddio Microsoft Forms i gasglu eich data.

Efallai y byddwn hefyd yn anfon gwahoddiadau atoch i'n digwyddiadau a manylion am gyhoeddiadau perthnasol gan y Bank of England. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon perthnasol (megis lleoliadau cynadledda) er mwyn gweinyddu digwyddiadau, ac at ddibenion diogelwch a diogelwch tân. Ar gyfer digwyddiadau mawr, efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r ffurflen ar-lein a ddarperir gan Microsoft i reoli ymatebion.

Mae'r Bank of England yn cadw gwybodaeth o adroddiadau ymweliadau cwmni am 20 mlynedd ers ein rhyngweithio diwethaf â chi. Fe'ch tynnir oddi ar ein rhestr anfon gwahoddiadau pan fyddwch yn gadael eich sefydliad presennol (oni bai eich bod yn gofyn yn benodol i ni gadw eich gwybodaeth) neu ar eich cais.

### **Eich hawliau**

Mae gennych nifer o hawliau dan gyfraith diogelu data. Er enghraifft, mae gennych hawl i ofyn i ni am gopi o'r data personol sydd gan y Bank of England amdanoch. Gelwir hyn yn 'Gais Gwrthrych am Wybodaeth'. Gallwch ofyn i ni newid sut rydym yn prosesu neu'n delio

â'ch data personol, ac efallai y bydd gennych hefyd yr hawl mewn rhai achosion i gael eich data personol wedi'i ddiwygio neu ei ddileu.

I gysylltu â ni am yr hawliau hynny, gan gynnwys gwneud cais am y data personol sydd gennym amdanoch chi, i wneud cwyn neu i ddarganfod mwy am breifatrwydd a diogelu data yn y Bank of England, ewch i'n gwefan <http://www.bankofengland.co.uk/privacy>, anfonwch e-bost atom [data-protection@bankofengland.co.uk](mailto:data-protection@bankofengland.co.uk) neu ysgrifennwch atom:

Privacy  
Bank of England  
Threadneedle Street  
London  
EC2R 8AH